DERBYN MYFYRWYR SYDD O DAN 18 OED: POLISI A GWEITHDREFN			
Adran	Cydymffurfiaeth/Derbyniadau/Gweinyddiaeth Myfyrwyr		
Awdur	Cydymffurfiaeth/Derbyniadau/Gweinyddiaeth Myfyrwyr		
Awdurdodwyd Gan:	Y Bwrdd Academaidd		
Gweithredwyd Gan:	Derbyniadau/Gweinyddiaeth Myfyrwyr		
Y Polisi / Strategaeth / Gweithdrefn a Ddisodlir:	Derbyn Myfyrwyr Sydd o Dan 18 Oed		
Rhif y Fersiwn:	2	**Pwyllgor Cymeradwyo:**	Y Bwrdd Academaidd
Dyddiad Cymeradwyo:	Medi 21	**Rhif y Cofnod:**	
Statws:	Cymeradwywyd	**Dyddiad Gweithredu:**	Medi 2021
Cyfnod Cymeradwyo:	3 Blynedd	**Dyddiad Adolygu:**	Gorffennaf 2024
Rwyf wedi gwneud asesiad i sgrinio'r effeithiau ar gydraddoldeb i helpu i ddiogelu yn erbyn gwahaniaethu ac i hyrwyddo cydraddoldeb.			Do
Rwyf wedi ystyried effaith y Polisi/Strategaeth/Gweithdrefn (dilëer fel y bo'n briodol) ar yr iaith Gymraeg a'r ddarpariaeth Gymraeg o fewn y Brifysgol.			Do

1. PWRPAS Y POLISI

1.1 Mae Prifysgol Glyndŵr Wrecsam weithiau'n derbyn myfyrwyr sydd o dan 18 oed. Yn y mwyafrif o achosion, sefyllfa dros dro fydd hon, gan y bydd y myfyriwr yn tynnu at ei ben blwydd yn ddeunaw oed [1].

1.2 Mae'r Brifysgol yn trin ei holl fyfyrwyr fel unigolion annibynnol ac aeddfed. Caiff myfyrwyr sydd o dan 18 oed eu trin yn yr un modd, gymaint ag sy'n bosibl.

1.3 Mae'r Brifysgol yn cydnabod bod Deddf Cydraddoldeb 2010 yn mynnu ei bod yn sicrhau nad yw'n gwahaniaethu'n anghyfreithlon yn erbyn unigolion ar sail eu hoedran, gan gynnwys myfyrwyr sydd o dan 18 oed. Fodd bynnag, o dan gyfraith y

[1] Ni wnaiff y Brifysgol dderbyn myfyrwyr sydd o dan 16 oed.

DU, ystyrir bod unrhyw un o dan 18 oed yn blentyn, ac felly mae gan y Brifysgol ddyletswydd gofal uwch hyd nes y bydd myfyrwyr o'r fath yn cyrraedd eu pen blwydd yn 18 oed, hyd yn oed os bydd y cyfnod hwn yn gymharol fyr.

1.4 Mae'r polisi a'r weithdrefn hon yn nodi'r ymagwedd a gymerir gan y Brifysgol wrth brosesu ceisiadau gan unrhyw un sydd o dan 18 oed ar ddechrau'r flwyddyn academaidd. Mae'n amlinellu i ddarpar fyfyrwyr, eu rhiant/rhieni neu warcheidwad/warcheidwaid a staff yr amodau a'r trefniadau diogelu y mae'n rhaid cytuno iddynt yn ffurfiol cyn eu derbyn i'r Brifysgol. Bydd unrhyw drefniadau penodol ar gyfer cefnogi a diogelu lles myfyrwyr o'r fath yn dod i ben pan fyddant yn troi'n 18 oed.

2. CYD-DESTUN

2.1 Dylai ymgeiswyr a'u rhiant/rhieni neu warcheidwad/gwarcheidwaid ystyried bod y Brifysgol yn amgylchedd oedolion; disgwylir i fyfyrwyr ymddwyn fel oedolion a chymryd cyfrifoldeb ar lefel oedolion. Disgwylir i fyfyrwyr fod â'r sgiliau angenrheidiol i allu astudio a byw'n annibynnol, ochr yn ochr â phobl o amrywiaeth eang o oedrannau a chefndiroedd.

2.2 Yn y lle cyntaf, ystyrir pob cais yn ôl teilyngdod academaidd. Os nad yw'r ymgeisydd yn dderbyniol ar sail academaidd, fe'i hysbysir trwy'r weithdrefn briodol y cafodd y cais ei wrthod.

2.3 O ran ymgeiswyr sydd o dan 18 oed:

- cynigir yr un telerau, amodau a phrisiau ag ar gyfer y rheiny sydd dros 18 oed.

- yn amodol ar reoliadau academaidd y Brifysgol, ni chynigir unrhyw gymorth arbennig neu academaidd ychwanegol ar sail oedran.

- mae angen iddynt ddarparu caniatâd gan riant/gwarcheidwad cyn y cyflwynir cynnig diamod. Bydd hyn yn caniatáu iddynt gofrestru a chyfranogi mewn gweithgareddau myfyrwyr ynghyd â chael triniaeth feddygol frys, ymhlith pethau eraill.

- mae angen iddynt fynychu cyfweliad â'r Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr (neu enwebai) cyn y cyflwynir cynnig diamod[1]. Pwrpas y cyfweliad yw asesu bod gan yr ymgeisydd y lefel o aeddfedrwydd a fynnir i allu deall ei gyfrifoldebau fel myfyriwr, i astudio mewn amgylchedd oedolion ac i ddeall y graddau y mae gan y Brifysgol ddyletswydd i ofalu amdano. Gall y Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr (neu enwebai) gynnwys aelod o dîm y rhaglen. Lle'n bosibl, dylai rhiant / gwarcheidwad neu, yn absenoldeb y naill neu'r llall ohonynt, oedolyn a enwebwyd gan y darpar fyfyriwr, fod yn bresennol.

2.4 Anfonir copi o'r polisi hwn, ynghyd â "Ffurflen Ganiatâd i Ymgeiswyr Sydd o Dan 18 Oed" (Atodiad A), at yr ymgeisydd a'i riant/rieni neu warcheidwad/warcheidwaid yn amlinellu eu rhwymedigaethau o ran y cynnig. Ni chadarnheir lle ar y rhaglen heb ddychwelyd a llofnodi "Ffurflen Ganiatâd i Ymgeiswyr Sydd o Dan 18 Oed".

---

[1] Bydd angen i fyfyrwyr sy'n astudio llai na 40 o gredydau fynychu cyfweliad.

3. CYFRIFOLDEB RHIENI

Ni all y Brifysgol ysgwyddo hawliau, cyfrifoldebau ac awdurdod rhieni mewn perthynas â phlentyn, ac ni fydd yn gweithredu *in loco parentis* mewn perthynas â myfyrwyr sydd o dan 18 oed. I gael ei dderbyn i'r Brifysgol, mae'n amod bod rhaid i riant/rieni neu warcheidwad/warcheidwaid unrhyw fyfyriwr sydd o dan 18 oed gadarnhau, cyn ei dderbyn, ei fod yn derbyn y trefniadau a nodir yn y polisi hwn trwy lofnodi a dychwelyd "Ffurflen Ganiatâd i Ymgeiswyr Sydd o Dan 18 Oed".

4. CYTUNDEBAU CONTRACTIOL

Fel rheol gyffredinol, nid oes modd i rai o dan 18 oed wneud cytundeb cyfreithiol rhwymol. Lle bo angen contractau, er enghraifft, mewn perthynas â ffioedd dysgu neu lety, mae'r Brifysgol yn gofyn i riant/rieni neu warcheidwad/warcheidwaid weithredu fel gwarantwr ac anrhydeddu pob rhwymedigaeth o dan unrhyw gontractau â'r Brifysgol a wneir gan y myfyriwr cyn ei ben blwydd yn 18 oed. Trwy lofnodi'r "Ffurflen Ganiatâd i Ymgeiswyr Sydd o Dan 18 Oed", bydd y rhiant/rhieni neu warcheidwad/warcheidwaid yn cytuno i hyn. Gallai methu â thalu dyledion sy'n daladwy i'r Brifysgol olygu bod rhaid i'r myfyriwr dynnu'n ôl o'i astudiaethau.

5. CYNNWYS RHIENI / DIOGELU DATA

Polisi'r Brifysgol yw cyfathrebu â myfyrwyr yn uniongyrchol o ran pob agwedd ar eu hastudiaethau, ac nid â'r rhiant/rhieni neu warcheidwad/warcheidwaid; bydd yr ymagwedd hon yn berthnasol hefyd i fyfyrwyr sydd o dan 18 oed. Er yr ystyrir bod y rheiny sydd o dan 18 oed yn blant o dan gyfraith y DU, mae ganddynt hawl gyfreithiol o dan y Ddeddf Diogelu Data (2018) i ddisgwyl na fydd gwybodaeth yn eu cylch yn cael ei datgelu heb eu caniatâd penodol hwy. Mae hyn yn golygu nad oes modd i'r Brifysgol roi gwybodaeth i riant/rieni neu warcheidwad/warcheidwaid ynghylch cynnydd myfyriwr, canlyniadau neu unrhyw amgylchiadau personol eraill onid yw'r myfyriwr yn rhoi ei ganiatâd penodol. Fodd bynnag, os yw'r myfyriwr yn methu â thalu unrhyw symiau a gytunwyd ar gontract, yna gall fod angen datgelu hyn i warantwr, ac efallai asiantaeth casglu dyledion.

6. CYSWLLT BRYS / PERTHYNAS AGOSAF

Ni fydd modd i fyfyrwyr o dan 18 gofrestru ar eu cwrs oni ddarperir gwybodaeth am eu perthynas agosaf, ynghyd â chyswllt brys, ar y "Ffurflen Ganiatâd i Ymgeiswyr Sydd o Dan 18 Oed". O ran myfyrwyr nad yw eu rhiant/rhieni neu warcheidwad/warcheidwaid yn y DU, rhaid iddynt gael Gwarcheidwad sydd wedi'i leoli yn y DU. Caiff y manylion o ran cyswllt brys eu hail-gadarnhau wrth gofrestru. Cyfrifoldeb y myfyriwr a / neu'r rhiant/rhieni neu warcheidwad/warcheidwaid yw hysbysu'r Brifysgol ar unwaith os oes unrhyw newidiadau o ran unrhyw wybodaeth am y cyswllt brys a ddarperir o fewn y ffurflen ganiatâd.

7. IECHYD

Mewn achosion prin, efallai y bydd rhaid cael caniatâd i roi triniaeth feddygol frys cyn y gellir cysylltu â rhiant/rhieni neu warcheidwad/warcheidwaid. Felly mae'r Brifysgol yn gofyn i riant/rieni neu warcheidwad/warcheidwaid roi eu caniatâd, mewn argyfwng o'r fath, bod gan uwch aelod staff yn y Brifysgol hawl i weithredu ar gyngor meddygol / yr heddlu a gwneud yr hyn sydd er lles gorau'r plentyn. Trwy'r lofnodi'r "Ffurflen Ganiatâd i Ymgeiswyr Sydd o Dan 18 Oed", mae'r rhiant/rhieni neu warcheidwad/warcheidwaid yn rhoi eu caniatâd i'r Brifysgol weithredu yn y modd hwn. Mae rhiant/rhieni neu warcheidwad/warcheidwaid yn gyfrifol am sicrhau eu bod yn hysbysu'r Brifysgol am unrhyw anghenion neu ofynion arbennig. Yr unigolyn a fyddai fel arfer yn gweithredu ar ran y Brifysgol yng nghyswllt mater o'r fath

fyddai'r: Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr, Deon Cyfadran, neu enwebai.

8. CYNNWYS CWRS ACADEMAIDD

Fel rhan o'r broses dderbyn, ymgynghorir â Thiwtor Derbyniadau'r adran berthnasol i sicrhau ei fod ef/ei bod hi, a Deon y Gyfadran, yn fodlon y byddai cynnwys unrhyw raglen academaidd yn briodol i fyfyrwyr dan 18 oed. Mae hyn yn cynnwys teithiau maes a lleoliadau, pryd y byddai'r gweithgareddau hyn yn digwydd ar adeg yn ystod y rhaglen pan fyddai'r myfyriwr o dan 18 oed. Pe byddai unrhyw agwedd ar y cwrs yn amhriodol, yna gwrthodir y cais. O ran rhai rhaglenni, mae'n un o amodau'r corff proffesiynol perthnasol bod rhaid i fyfyrwyr fod yn 18 neu drosodd pan fyddant yn cofrestru. Dylai rhiant/rhieni neu warcheidwad/gwarcheidwaid fod yn ymwybodol na fydd staff dysgu'n cael gwiriadau DBS fel mater o drefn.

9. TEITHIAU MAES

Gall cyrsiau gynnwys teithiau maes, gwibdeithiau neu gyfnodau astudio eraill i ffwrdd o'r Brifysgol, sydd efallai'n orfodol neu'n ddewisol. Ni all y Brifysgol gymryd unrhyw gyfrifoldeb ychwanegol am fyfyriwr sydd o dan 18 oed mewn perthynas â gweithgareddau o'r fath. Oni nodir fel arall, trwy lofnodi'r "Ffurflen Ganiatâd i Ymgeiswyr Sydd o Dan 18 Oed" mae'r rhiant/rheini neu warcheidwad/warcheidwaid yn rhoi caniatâd i'r myfyriwr gymryd rhan yn y gweithgareddau hyn ar y sail honno.

10. DEFNYDD DERBYNIOL O'R RHYNGRWYD

Beth bynnag fo'u hoed, disgwylir i fyfyrwyr ddilyn rheolau'r Brifysgol o ran defnydd derbyniol o'r rhyngrwyd.

11. LLETY MYFYRWYR

Dylai rhiant/rheini neu warcheidwad/warcheidwaid gydnabod, yn gyffredinol, y bwriedir mai myfyrwyr 18 oed a throsodd a fydd yn defnyddio'r llety preswyl a gynigir gan y Brifysgol. Nid yw'r Brifysgol yn cynnig warden neu oruchwyliwr preswyl ar gyfer ei neuaddau preswyl, ac ni fydd yn cymryd unrhyw gyfrifoldeb dros fyfyrwyr, hyd yn oed y rheiny sydd dan 18 oed, yn nhermau eu hanghenion o ran llety.

12. PERTHNASAU RHWNG STAFF-MYFYRWYR

O dan Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003, mae'n drosedd i unrhyw un sydd mewn sefyllfa o ymddiriedaeth (a all gynnwys aelodau o staff y Brifysgol) gymryd rhan mewn gweithgaredd rhywiol gyda rhywun sydd o dan 18 oed.

13. AMDDIFFYN / DIOGELU PLANT

Dan y gyfraith, mae rhywun sydd o dan 18 oed yn blentyn. Mae gan y Brifysgol gyfrifoldeb i amddiffyn rhai dan 18 oed rhag eu cam-drin, a rhaid iddi adrodd ynghylch unrhyw amheuon neu honiadau o gam-drin i'r adran Gwasanaethau Cymdeithasol Plant berthnasol. Caiff unrhyw amheuon neu honiadau o'r fath eu hadrodd i unigolyn dynodedig priodol y Brifysgol. Mae Polisi Diogelu'r Brifysgol yn rhestru aelodau penodol o staff y Brifysgol sydd wedi'u dynodi'n staff cyswllt ar gyfer Amddiffyn Plant. Mae gan yr aelodau staff yr arbenigedd penodol i allu ymateb i ddigwyddiadau a chynghori aelodau staff eraill. Dylid cysylltu ag un o'r aelodau staff cyswllt yn y lle cyntaf. Dylid rhoi gwybod i'r Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr hefyd os caiff atgyfeiriad amddiffyn plant ei wneud i'r awdurdodau priodol.

14. HYSBYSIAD OEDRAN

Cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw datgan ei ddyddiad geni yn onest i'r Brifysgol. Fel y bo'n berthnasol, hysbysir y Cyfarwyddwr Gweithrediadau, y Deon Cyfadran, y Tiwtor Derbyniadau, yr Arweinydd Rhaglen, y Rheolwr Llety, y Rheolwr Cyngor ac Arweiniad i Fyfyrwyr, Undeb y Myfyrwyr a Gweinyddiaeth Myfyrwyr, cyn cofrestru, am unrhyw fyfyriwr a fydd o dan 18 oed ar ddechrau'r flwyddyn academaidd. Ni fydd staff addysgu a staff eraill yn cael gwybod beth yw oedran myfyriwr fel mater o drefn.

15. ALCOHOL A THYBACO

Mae'n drosedd i rywun sydd o dan 18 oed brynu alcohol neu dybaco neu i unrhyw un werthu alcohol neu dybaco i unigolyn o'r fath. Bydd y Brifysgol yn cymryd camau rhesymol i geisio sicrhau nad yw'r gyfraith yn cael ei thorri mewn perthynas ag eiddo trwyddedig sydd o dan reolaeth y Brifysgol, ond ni all ymrwymo i oruchwylio unrhyw fyfyriwr unigol. Gellir cynnal hapwiriadau o oedran unigolion sy'n defnyddio unrhyw eiddo trwyddedig yn y DU, gan gynnwys y rheiny ar safle'r Brifysgol. Gosodir arwyddion mewn mannau cyhoeddus ym Mhrifysgol Glyndŵr Wrecsam sy'n eiddo trwyddedig, sy'n hysbysu unigolion o dan 18 oed nad ydynt yn cael prynu diodydd alcoholig. Trwy lofnodi'r "Ffurflen Ganiatâd i Ymgeiswyr Sydd o Dan 18 Oed" mae'r ymgeisydd yn cydnabod y cyfyngiadau cyfreithiol o ran prynu ac yfed cynhyrchion sydd dan gyfyngiadau oedran.

16. DAL SWYDD

Anogir myfyrwyr sydd o dan 18 oed i ymuno â chlybiau'r Brifysgol neu Undeb y Myfyrwyr, ond ni allant ddal swydd tan ar ôl eu pen blwydd yn 18 oed (oherwydd bod gan swyddogion gyfrifoldebau cyfreithiol). Efallai y bydd cyfyngiad ar gymryd rhan mewn rhai gweithgareddau hefyd.

17. CYNGOR YCHWANEGOL I FYFYRWYR TRAMOR SYDD O DAN 18

O ran ymgeiswyr tramor sydd o dan 18 oed y mae eu rhiant/rhieni neu warcheidwad/warcheidwaid yn byw y tu allan i'r DU, rhaid iddynt ddarparu caniatâd gan riant/gwarcheidwad ar gyfer eu cofrestru **a** nodi manylion gwarcheidwad o fewn y DU ar y "Ffurflen Ganiatâd i Ymgeiswyr Sydd o Dan 18 Oed". Gall y gwarcheidwad o fewn y DU fod yn berthynas neu ffrind ond dylid cadarnhau eu caniatâd cyn darparu eu manylion cysylltu i'r Brifysgol. Trefniant preifat yw hwn ac nid oes modd i'r Brifysgol ddarparu cymorth i ganfod gwarcheidwad addas. Ceir asiantaethau y gellir talu ffioedd iddynt wneud trefniadau. Mae'r Gymdeithas Gwarcheidwaid Addysgol ar gyfer Myfyrwyr Tramor ('The Association of Educational Guardians for International Students'/AEGIS) yn archwilio ac yn achredu sefydliadau gwarcheidiaeth yn y DU, yn unol â deddfwriaeth gyfredol y DU. Am wybodaeth ymwelwch â: **www.aegisuk.net**

O ran Gwladolion Nad Ydynt o'r AEE, bydd arnynt angen caniatâd o dan y rheolau mewnfudo i astudio yn y DU. Fel rhan o'r broses ymgeisio ar gyfer fisa, rhaid i blentyn o dan 18 ddarparu caniatâd gan riant/rieni neu warcheidwad/warcheidwaid i ddangos eu bod yn cefnogi'r cais. Bydd angen cwblhau'r "Ffurflen Ganiatâd i Ymgeiswyr Sydd o Dan 18 Oed", ond yn ychwanegol, at ddibenion fisa, bydd y Brifysgol yn gofyn am lythyr gan y rhiant/rhieni neu warcheidwad/warcheidwaid sy'n dangos y berthynas, eu caniatâd i'r cais, y trefniadau byw yn y DU, ynghyd â threfniadau teithio annibynnol y myfyriwr i'r DU. Os oes gan un rhiant neu warcheidwad cyfreithiol warchodaeth gyfreithiol dros y plentyn, neu os mai'r unigolyn hwnnw'n unig sy'n gyfrifol amdano, rhaid i'r llythyr gadarnhau hyn, a bydd y rhiant neu'r gwarcheidwad cyfreithiol hwnnw yn ei lofnodi. Fel arall, rhaid i'r ddau

riant neu warcheidwaid cyfreithiol roi eu caniatâd, a rhaid i'r ddau ohonynt lofnodi'r llythyr.

18. COFRESTRU – SESIWN SEFYDLU MEWN PERTHYNAS Â MATERION LLES

Fel rhan o'r broses gofrestru, bydd rhaid i fyfyrwyr sydd o dan 18 oed fynychu sesiwn sefydlu gorfodol sy'n trafod materion lles. Pwrpas y sesiwn sefydlu mewn perthynas â materion lles yw sicrhau bod yr unigolyn yn ymwybodol o reoliadau'r Brifysgol ac unrhyw gyfyngiadau arnynt o ganlyniad i'w hoedran. Ni fydd angen i fyfyrwyr sy'n cofrestru ar gyrsiau byr (cyrsiau sy'n cynnwys 40 credyd neu lai) fynychu'r sesiwn sefydlu mewn perthynas â materion lles.

19. RHAGLENNI'R BRIFYSGOL A ADDYSGIR GAN BARTNERIAID

Dylai bod gan bartneriaid bolisi a gweithdrefn ar waith, sy'n berthnasol i'w lleoliad addysg, ar gyfer derbyn ymgeiswyr sydd o dan 18 oed.

20. POLISÏAU CYSYLLTIEDIG

Polisi Derbyn
Polisi Diogelu
Polisi Diogelu Data

<u>GWEITHDREFN AR GYFER DERBYN MYFYRWYR SYDD O DAN 18 OED</u>

Mae'r canlynol yn amlinellu gweithdrefn y Brifysgol ar gyfer prosesu ceisiadau gan ymgeiswyr a fydd o dan 18 oed ar ddechrau'r flwyddyn academaidd.

1. Bydd y Tîm Derbyniadau yn defnyddio'r ffurflen gais i nodi ymgeiswyr a fydd o dan 18 oed ar y dyddiad y bydd cwrs yn cychwyn.

2. Ar adeg derbyn ymgeisydd, caiff y wybodaeth sgrinio ar y System Data Myfyrwyr ("SITS") ei diweddaru i nodi y bydd yr ymgeisydd o dan 18 oed pan fydd yn cofrestru.

3. Os yw'r ymgeisydd yn bodloni'r gofynion o ran mynediad, bydd y Tîm Derbyniadau yn cysylltu â Thiwtor Derbyniadau'r adran berthnasol i gadarnhau bod cynnwys y cwrs, y teithiau maes neu leoliadau yn briodol ar gyfer unigolyn sydd o dan 18 oed. Pe byddai'r cynnwys yn amhriodol, caiff y cais ei wrthod.

4. Pe bai adran / ysgol yn penderfynu ei bod eisiau cynnig lle i ymgeisydd a fydd o dan 18 oed ar adeg mynediad i gwrs, dylai'r Tiwtor Derbyniadau anfon e-bost at y Tîm Derbyniadau canolog i gadarnhau y dylent brosesu'r cais.

5. Dylai'r Swyddog Derbyniadau anfon copi o'r ffurflen gais UCAS / PGW, ynghyd â chymeradwyaeth y Tiwtor Derbyniadau academaidd, at y Rheolwr Derbyniadau er gwybodaeth.

6. Gwneir cynnig amodol, sy'n cynnwys gofyniad i'r ymgeisydd a'r rhiant/rhieni neu warcheidwad/warcheidwaid lofnodi a dychwelyd ffurflen ganiatâd ynghyd â mynychu

cyfweliad gyda'r Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr. Amgaeëir copi o'r polisi hwn gyda'r cynnig amodol hefyd. O ran myfyrwyr sy'n cofrestru ar gyrsiau byr (cyrsiau sy'n cynnwys 40 credyd neu lai), ni fydd angen iddynt fynychu cyfweliad â'r Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr.

7. Ar ôl derbyn y ffurflen ganiatâd wedi'i llofnodi, bydd y Tîm Derbyniadau yn diweddaru'r system SITS er mwyn cofnodi derbyn y ffurflen ganiatâd, bydd yn uwchlwytho'r ffurflen ac yn cofnodi manylion cysylltu'r rhiant/gwarcheidwad. Pan fo'r ymgeisydd yn cadarnhau ei fod yn derbyn y cynnig, bydd y Tîm Derbyniadau yn cysylltu â thimau perthnasol i nodi bod myfyriwr o dan 18 oed yn bwriadu cofrestru. Bydd y Tîm Derbyniadau yn rhannu'r ffurflen ganiatâd gyda'r:
    - Cyfarwyddwr Gweithrediadau
    - Y Gwasanaeth Cefnogi Myfyrwyr
    - Gweinyddiaeth Myfyrwyr
    - Y Rheolwr Llety
    - Undeb y Myfyrwyr
    - Tiwtor Derbyniadau, Deon Cyfadran, Arweinydd Rhaglen perthnasol
    - Y Rheolwr Derbyniadau Rhyngwladol (o ran myfyrwyr sydd angen nawdd gan y Brifysgol ar gyfer astudio).

8. Ar ôl cyflawni pob amod arall (e.e. cymwysterau academaidd, cyfweliad cyn cael mynediad), bydd y cynnig wedyn yn un diamod. Nodwch os gwelwch yn dda, ni fydd unrhyw gynnig yn un diamod hyd nes y bydd y ffurflen ganiatâd wedi'i llofnodi / cyfweliad wedi'i gwblhau.

9. Unwaith y bydd y cynnig yn un diamod, gellir anfon gwahoddiad i'r ymgeisydd gofrestru ar-lein ymlaen llaw, pan fo'n briodol i wneud hynny.

10. Fel rhan o'r gofynion cofrestru, bydd rhaid i'r ymgeisydd fynychu sesiwn gofrestru wyneb yn wyneb, ynghyd â sesiwn sefydlu mewn perthynas â materion lles. Pwrpas y sesiwn sefydlu yw sicrhau bod yr unigolyn yn ymwybodol o reoliadau'r Brifysgol ac unrhyw gyfyngiadau sy'n berthnasol iddo o ganlyniad i'w oedran. Caiff y sesiwn ei amserlennu gan yr adran Gweinyddiaeth Myfyrwyr fel rhan o'r calendr sefydlu blynyddol a gyflenwir gan y Gwasanaethau Myfyrwyr, gyda mewnbwn posibl gan randdeiliaid perthnasol eraill, fel Undeb y Myfyrwyr er enghraifft. Dylid hysbysu'r ymgeisydd am y gofyniad i fynychu / y dyddiad / amser / lleoliad trwy lythyr cynnig amodol. O ran myfyrwyr sy'n cofrestru ar gyrsiau byr (cyrsiau sy'n cynnwys 40 o gredydau neu lai), ni fydd angen iddynt fynychu sesiwn sefydlu mewn perthynas â materion lles.

11. Ar ôl cofrestru, bydd yr adran Gweinyddiaeth Myfyrwyr yn cysylltu â'r Swyddfa Llety a Deoniaid Cyfadrannau i sicrhau bod pob parti allweddol yn ymwybodol o unrhyw rai o dan 18 oed sydd wedi cofrestru ar eu rhaglenni. Bydd yr adran Gweinyddiaeth Myfyrwyr yn croeswirio'r manylion cyswllt brys ar y ffurflen ganiatâd a lofnodwyd, yn erbyn y wybodaeth ar y system SITS.

Atodiad A - Templed o Lythyr a Ffurflen Ganiatâd i Ymgeiswyr o dan 18 oed

Annwyl

Fel rhan o weithdrefn dderbyn Prifysgol Glyndŵr, ceir proses ar gyfer nodi ymgeiswyr a fydd o dan 18 oed pan fydd y cwrs yn cychwyn.

Rwy'n deall eich bod wedi ymgeisio am ENW'R CWRS sy'n dechrau ar DYDDIAD. Er mwyn bwrw ymlaen â'ch cais, cwblhewch a dychwelwch y ffurflen gais amgaeedig.

Cyn cwblhau'r ffurflen ganiatâd, darllenwch y "*Polisi a Gweithdrefn Derbyn Myfyrwyr o dan 18 Oed*." Trwy lofnodi'r ffurflen ganiatâd, rydych chi a'ch rhiant / gwarcheidwad yn cadarnhau eich bod yn derbyn y trefniadau a nodir yn y polisi.

Bydd eich Ffurflen Ganiatâd yn cael ei chynnwys ar eich cofnod myfyriwr er mwyn i'r Brifysgol allu cysylltu â'ch rhiant / gwarcheidwad yn achos unrhyw un o'r amgylchiadau a restrir.

Dylech fod yn ymwybodol hefyd, cyn gwneud cynnig diamod i chi, bod rhaid i chi fynychu cyfweliad â'r Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr cyn cael mynediad, er mwyn asesu eich dealltwriaeth o'ch cyfrifoldebau fel myfyriwr a'r graddau y mae gan y Brifysgol ddyletswydd i ofalu amdanoch.

Nodwch nad fydd Prifysgol Glyndŵr yn darparu rôl rhiant ar ôl i chi gofrestru cyn eich pen blwydd yn 18 oed, ac ni fydd yn gallu gwneud hynny.

Os oes arnoch angen rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r Tîm Derbyniadau dros y ffôn (01978 293439) neu trwy e-bost at admissions@glyndwr.ac.uk. Rhaid dychwelyd y ffurflen ganiatâd amgaeedig o fewn 15 diwrnod gwaith o'r dyddiad a nodir ar ben y llythyr hwn. Nodwch os gwelwch yn dda, nad oes modd i ni ystyried eich cais i astudio yn y Brifysgol hyd nes y byddwn wedi derbyn y ffurflen hon wedi'i chwblhau.

Cwblhewch y ffurflen amgaeedig a'i dychwelyd at:

Y Rheolwr Derbyniadau
Prifysgol Glyndŵr
Ffordd yr Wyddgrug
Wrecsam
LL11 2AW

Cofion gorau,

Y Rheolwr Derbyniadau

Prifysgol Glyndŵr

Atodiad A (parhad)

Ffurflen Ganiatâd i Ymgeiswyr Sydd o Dan 18 Oed

Mae'r caniatâd a ganlyn yn rhoi sicrwydd bod myfyrwyr o dan 18 wedi cael caniatâd rhiant / gwarcheidwad i gofrestru. Amlinellir hefyd yr amgylchiadau lle gellir cysylltu â rhieni gyda chaniatâd y myfyriwr.

Cysylltir â'r rhiant/gwarcheidwad pe bai unrhyw un o'r sefyllfaoedd a ganlyn yn codi:

- Argyfwng Meddygol;
- Diffyg presenoldeb parhaus heb eglurhad rhesymol;
- Myfyriwr heb fyw yn ei lety prifysgol am fwy na 4 wythnos;
- Pryder bod y myfyriwr yn beryglus i'w hun ac eraill;
- Pryder dros esgeulustod personol neu anaf corfforol na ellir ei egluro;
- Pryder bod myfyriwr yn cymryd rhan mewn gweithgaredd troseddol;
- Unrhyw sefyllfa arall sy'n golygu bod uwch aelod staff o'r Brifysgol yn ystyried bod angen cysylltu.

Ar wahân i argyfwng meddygol neu bryder o ran amddiffyn plant, cymerir pob cam rhesymol i gynghori a chefnogi'r myfyriwr cyn gwneud penderfyniad i gysylltu â'r rhiant neu warcheidwad cyfreithiol neu adran Gwasanaethau Cymdeithasol briodol.

Caiff yr adran hon ei chwblhau gan yr ymgeisydd:

Cadarnhaf fy mod wedi darllen a deall yr amodau a amlinellir yn y "Polisi Derbyn Myfyrwyr o dan 18 Oed".

Enw:	
Dyddiad Geni:	
Rhif y Myfyriwr:	
Y Cwrs yr Ymgeisiwyd Amdano:	
Llofnod:	
Dyddiad:	

Caiff yr adran hon ei chwblhau gan riant/gwarcheidwad yr ymgeisydd:

Cadarnhaf fy mod wedi darllen a deall yr amodau a amlinellir yn y "Polisi Derbyn Myfyrwyr o dan 18 Oed". Rwy'n derbyn na fydd y Brifysgol yn gweithredu *in loco parentis* pe bai'r ymgeisydd uchod yn cael ei dderbyn.

Enw:	
Perthynas â'r ymgeisydd:	
Llofnod:	

Dyddiad:	
Cyfeiriad:	
Ffôn Cartref: Ffôn Symudol: Ffôn Gwaith:	

Caiff yr adran hon ei chwblhau gan unrhyw riant/gwarcheidwad sy'n byw y tu allan i'r DU yn unig.

Os ydych yn byw y tu allan i'r DU a bod yr ymgeisydd o dan 18 oed, mae'r Brifysgol yn gofyn i chi ddarparu manylion cysylltu gwarcheidwad cyfreithiol **yn y DU** sy'n 18 oed neu drosodd. Darparwch y manylion hyn isod os gwelwch yn dda:

Enw'r gwarcheidwad cyfreithiol yn y DU:	
Perthynas y Gwarcheidwad yn y DU â'r Ymgeisydd: (e.e. asiantaeth gwarcheidiaeth, modryb)	
Cyfeiriad yn y DU:	
Ffôn Cartref: Ffôn Symudol: Ffôn Gwaith:	

Dychwelwch at: Y Rheolwr Derbyniadau, Prifysgol Glyndŵr, Ffordd yr Wyddgrug, LL11 2AW